Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru

Democracy and Boundary Commission Cymru

# Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2026

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6

cdffc.llyw.cymru
ymholiadau@cdffc.llyw.cymru

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Rhan 1 – Adran 6: Adroddiad Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau 2026

**Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r camau a gymerwyd gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru i gydymffurfio â'r ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'r ddyletswydd yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau yn gysylltiedig â Chymru yn ceisio cynnal a gwella bioamrywiaeth, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer eu swyddogaethau yn briodol, a thrwy hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Mae swyddogaethau'r Comisiwn o natur strategol, gynghorol a gweinyddol, ac nid ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â bioamrywiaeth, rheoli tir na rheoli mannau gwyrdd. Felly, mae'r Comisiwn yn parhau i berthyn i'r categori awdurdodau cyhoeddus sy'n cyfrannu at fioamrywiaeth yn bennaf trwy'r ffordd maen nhw'n cynnal eu busnes o ddydd i ddydd, rheoli eu polisïau mewnol, lleihau eu hôl troed amgylcheddol ac ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth mewn trefniadau llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

## 2. Ynglŷn â'r Comisiwn

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Diben y Comisiwn yw cefnogi democratiaeth leol effeithiol a chyfleus yng Nghymru trwy ei gyfrifoldebau statudol am drefniadau etholiadol, arolygu ffiniau a swyddogaethau democrataidd cysylltiedig.

Wrth wneud ei waith, mae'r Comisiwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol, cynghorau cymuned a thref, Llywodraeth Cymru, Aelodau'r Senedd, cyrff partner a'r cyhoedd. Mae'r Comisiwn yn cydnabod, er nad yw ei swyddogaethau statudol yn ymwneud â rheoli tir neu gynefinoedd yn uniongyrchol, y gall ei benderfyniadau, ei ddewisiadau caffael, ei drefniadau teithio, ei ddefnydd o adnoddau a'i ddull o gynllunio sefydliadol gyfrannu'n gadarnhaol at amcanion bioamrywiaeth a hinsawdd ehangach Cymru.

## 3. Y Cyd-destun Sefydliadol yn 2026

Ers yr adroddiad blaenorol, mae'r Comisiwn wedi symud i adeiladau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn newid pwysig i amgylchedd gweithredu'r Comisiwn. Mae'r symudiad yn cynnig cyfleoedd i gydweddu'n agosach â threfniadau ystad, cyfleusterau a rennir, systemau rheoli ynni, trefniadau rheoli gwastraff ac arferion cynaliadwyedd ehangach Llywodraeth Cymru.

Ac yntau'n denant o fewn adeiladau Llywodraeth Cymru, nid yw pob agwedd ar reoli'r adeilad o fewn rheolaeth uniongyrchol y Comisiwn. Fodd bynnag, mae'n gyfrifol am effaith amgylcheddol ei weithrediadau ei hun, gan gynnwys ymddygiad

staff, penderfyniadau caffael, arferion gweithio digidol, dewisiadau teithio, defnydd o le swyddfa, lleihau gwastraff ac integreiddio ystyriaethau bioamrywiaeth mewn cynllunio a llywodraethu.

## 4. Llywodraethu a Gwneud Penderfyniadau

Mae'r Comisiwn yn ceisio ymgorffori bioamrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol yn ei drefniadau llywodraethu, cynllunio a phenderfynu mewn ffordd sy'n gymesur â'i faint, ei gylch gwaith a'i ddylanwad amgylcheddol uniongyrchol. Y Prif Weithredwr sy'n bennaf atebol am sicrhau bod y Comisiwn yn bodloni ei gyfrifoldebau o dan y ddyletswydd Adran 6, ac fe'i cefnogir gan gynllunio corfforaethol, cynllunio gweithredol, prosesau caffael ac ymgysylltu â staff.

Adlewyrchir ystyriaethau amgylcheddol trwy drefniadau cynllunio busnes arferol, cyflawni prosiectau, gweithgarwch caffael, cyfathrebu â staff ac ymagwedd y Comisiwn at gyfarfodydd, ymgynghoriadau ac ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried yn gynnar pan fydd penderfyniadau'n cael eu datblygu, yn hytrach nag fel ymarfer ar wahân neu ôl-weithredol.

Yn ymarferol, mae hyn yn cynnwys lleihau teithiau diangen, defnyddio technolegau digidol yn effeithiol, defnyddio cyn lleied o adnoddau â phosibl, cymhwyso egwyddorion caffael cynaliadwy ac annog staff i ystyried effaith amgylcheddol eu gwaith. Mae'r trefniadau hyn hefyd yn cefnogi'r egwyddorion datblygu cynaliadwy ehangach a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## 5. Camau a Gymerwyd i Gynnal a Gwella Bioamrywiaeth

### Gweithio'n ddigidol ac effeithlonrwydd adnoddau

Mae'r Comisiwn yn parhau i weithredu fel sefydliad digidol yn gyntaf. Mae rheoli dogfennau'n ddigidol, prosesau ymgynghori electronig a chydweithio rhithwir yn lleihau'r defnydd o bapur, gofynion argraffu, storio dogfennau'n ffisegol a symud deunyddiau copi caled.

Pan fydd angen argraffu, anogir staff i gadw'r symiau mor isel â phosibl a defnyddio deunyddiau wedi'u hailgylchu neu rai sy'n well i'r amgylchedd, os ydynt ar gael. Mae'r dull hwn yn helpu i ddefnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn lleihau gwastraff y gellid ei osgoi.

### Caffael cynaliadwy

Mae'r Comisiwn yn cymhwyso egwyddorion caffael cynaliadwy wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Lle bo'n berthnasol ac yn gymesur, mae gweithgarwch caffael yn ystyried effaith amgylcheddol, gwerth oes gyfan, lleihau gwastraff, cyfleoedd i leihau allyriadau carbon, gwerth cymdeithasol, cadwyni cyflenwi cyfrifol a disgwyliadau caffael Llywodraeth Cymru.

Mae hyn yn helpu i sicrhau bod penderfyniadau prynu yn cefnogi anghenion gweithredol y Comisiwn ar yr un pryd â chyfrannu at amcanion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy ehangach, hefyd.

Bydd y Comisiwn yn parhau i adolygu trefniadau caffael i sicrhau bod ystyriaethau cynaliadwyedd yn parhau i fod wedi'u hymgorffori mewn gweithgarwch comisiynu a rheoli contract.

### Teithio cynaliadwy a gweithio hybrid

Mae'r Comisiwn yn hyrwyddo gweithio hybrid ac mae'n defnyddio technoleg cyfarfod rhithwir a hybrid yn helaeth i leihau teithiau busnes diangen. Mae hyn yn arbennig o bwysig o ystyried cylch gwaith Cymru gyfan y Comisiwn a'r ffaith ei fod yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol, partneriaid a rhanddeiliaid ar draws y wlad.

Pan fydd angen teithio, anogir staff i ystyried trafnidiaeth gyhoeddus, teithio llesol, rhannu teithiau ac opsiynau carbon is, lle bo'n ymarferol. Mae lleihau teithiau diangen yn cyfrannu at allyriadau is ac yn cefnogi ffyrdd mwy cynaliadwy o weithio.

### Lleihau gwastraff a defnyddio cyfleusterau a rennir

Ac yntau bellach wedi symud i adeiladau Llywodraeth Cymru, mae'r Comisiwn yn defnyddio cyfleusterau ystad a rennir ar gyfer gwastraff, ailgylchu, diogelwch, cynnal a chadw a rheoli swyddfa. Er bod y trefniadau hyn yn cael eu cydlynu trwy Lywodraeth Cymru, y Comisiwn sy'n gyfrifol am ymddygiad staff a lleihau gwastraff y gellid ei osgoi o fewn ei weithrediadau ei hun.

Anogir staff i wneud defnydd effeithiol o'r cyfleusterau ailgylchu sydd ar gael, osgoi prynu'n ddiangen a defnyddio adnoddau swyddfa yn effeithlon. Bydd y Comisiwn hefyd yn ceisio cyfleoedd i ymgysylltu â thimau ystad Llywodraeth Cymru pan fydd mentrau cynaliadwyedd cyffredin yn berthnasol i'w waith.

### Ymwybyddiaeth staff

Mae'r Comisiwn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau amgylcheddol trwy gyfathrebu mewnol, trafodaethau rheoli rheolaidd ac ymgysylltu â staff. Anogir staff i ystyried effeithiau amgylcheddol wrth gynllunio eu gwaith a chyfrannu at amcanion cynaliadwyedd ehangach y Comisiwn.

## 6. Hyrwyddo Cydnerthedd Ecosystemau

Mae'r ddyletswydd Adran 6 yn mynnu bod awdurdodau cyhoeddus nid yn unig yn cynnal a gwella bioamrywiaeth, ond hefyd yn hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Er nad yw'r Comisiwn yn rheoli tir, cynefinoedd na rhywogaethau'n uniongyrchol, gall ei ddewisiadau gweithredol gefnogi'r egwyddorion cydnerthedd a amlygwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Felly, mae cyfraniad y Comisiwn yn anuniongyrchol ond yn ystyrlon: lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol, lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch busnes,

cefnogi cadwyni cyflenwi cyfrifol a chyd-fynd ag ymarfer cynaliadwyedd ehangach y sector cyhoeddus.

Mae'r Comisiwn yn cefnogi cydnerthedd ecosystemau trwy gymhwyso egwyddorion caffael cynaliadwy, defnyddio llai o adnoddau, lleihau gwastraff i'r eithaf, annog teithio carbon is a chymryd rhan mewn trefniadau ystad a rennir, pan fydd cyfleoedd yn codi.

### 7. Monitro, Adolygu a Gwella'n Barhaus

Mae cynnydd yn erbyn y ddyletswydd Adran 6 yn cael ei fonitro trwy drefniadau llywodraethu corfforaethol a chynllunio gweithredol y Comisiwn. Mae hyn yn caniatáu i ystyriaethau bioamrywiaeth a chynaliadwyedd gael eu hadolygu ochr yn ochr â blaenoriaethau busnes ehangach, risgiau a phenderfyniadau ar adnoddau.

Bydd y Comisiwn yn parhau i adolygu cyfleoedd i wella perfformiad amgylcheddol trwy fonitro'r defnydd o adnoddau, adolygu arferion caffael, annog teithio cynaliadwy, cryfhau ymgysylltu â staff ac amlygu cyfleoedd i gymryd rhan mewn mentrau cynaliadwyedd perthnasol Llywodraeth Cymru.

Bydd adroddiadau Adran 6 yn parhau i fod yn rhan o fframwaith atebolrwydd ehangach y Comisiwn a byddant yn cael eu hadolygu yn unol â gofynion adrodd statudol.

### 8. Blaenoriaethau yn y Dyfodol ar gyfer 2026–2029

Yn ystod y cyfnod adrodd nesaf, bydd y Comisiwn yn parhau i fynd ati i fodloni'r ddyletswydd Adran 6 mewn ffordd ymarferol a chymesur. Bydd yn rhoi blaenoriaeth i gynnal gweithio digidol yn gyntaf, lleihau argraffu diangen, annog teithio cynaliadwy a gweithio hybrid, cryfhau ystyriaethau cynaliadwyedd mewn prosesau caffael, ymgysylltu â mentrau ystad Llywodraeth Cymru, pan fydd yn briodol, cynnal ymwybyddiaeth staff ac adolygu cynnydd yn flynyddol trwy drefniadau llywodraethu corfforaethol.

### 9. Cyfraniad at Flaenoriaethau Llywodraeth Cymru

Mae dull y Comisiwn yn cefnogi'r uchelgeisiau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru, Cymru Sero Net a Thuag at Ddyfodol Diwastraff. Er bod effeithiau amgylcheddol uniongyrchol y Comisiwn yn gyfyngedig, mae'r camau gweithredu a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn dangos ei ymrwymiad i gyfrannu'n gymesur at amcanion bioamrywiaeth, hinsawdd ac effeithlonrwydd adnoddau cenedlaethol Cymru.

### 10. Casgliad

Mae Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru wedi ymrwymo o hyd i gyflawni ei gyfrifoldebau o dan Adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Er nad yw ei swyddogaethau statudol yn cynnwys rheoli tir na chadwraeth bioamrywiaeth, mae'r

Comisiwn yn cydnabod bod gan bob awdurdod cyhoeddus rôl i'w chyflawni wrth gefnogi amcanion amgylcheddol Cymru.

Trwy ymgorffori ystyriaethau bioamrywiaeth a chynaliadwyedd mewn trefniadau llywodraethu, caffael, teithio, rheoli adnoddau, ymwybyddiaeth staff a gwneud penderfyniadau pob dydd, mae'r Comisiwn yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a chymesur at gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau.

Bydd y Comisiwn yn parhau i adolygu ei berfformiad, amlygu cyfleoedd i wella a sicrhau bod bioamrywiaeth yn aros yn ystyriaeth annatod o fewn llywodraethu corfforaethol a chynllunio gweithredol.